



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Diwygio trefn cofrestru a
chymeradwyo ysgolion annibynnol
mewn perthynas ag anghenion
addysgol arbennig

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2013

Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig

Cynulleidfa	Anelir y ddogfen hon at bawb sydd â diddordeb mewn darparu addysg ar gyfer y rhai ag anghenion addysgol arbennig.
Trosolwg	Dyma grynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Y Gangen Anghenion Ychwanegol Yr Is-Adran Cymorth i Ddysgwyr Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Cynnwys

Cefndir	1
Yr ymgynghoriad	3
Y camau nesaf	6
Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr	7

Cefndir

Adran 347 o Ddeddf Addysg 1996

Mae Adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 (a347 o'r 'Ddeddf') yn ymwneud â lleoli plant â datganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru gymeradwyo ysgol annibynnol fel un sy'n addas i dderbyn plant y mae'r awdurdod lleol yn cynnal datganiadau ar eu cyfer o dan a324 o'r Ddeddf. O dan a347(5), er mwyn i blentyn gael ei leoli mewn ysgol annibynnol, mae'n rhaid bod Gweinidogion Cymru naill ai wedi cymeradwyo'r ysgol fel un addas i dderbyn plant â datganiadau AAA yn gyffredinol (a347(5)(a)) neu mae'n rhaid eu bod wedi cymeradwyo lleoli plentyn penodol mewn ysgol benodol (a347(5)(b)). Mae'r meini prawf y bydd Gweinidogion Cymru'n eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried cais am gymeradwyaeth wedi'u nodi yn Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 (SI 1994/6510).

Y Gofrestr o ysgolion annibynnol o dan ran 10 o Ddeddf Addysg 2002

Gweinidogion Cymru yw cofrestrydd ysgolion annibynnol yng Nghymru. Rhaid i unrhyw sefydliad sydd am weithredu fel ysgol annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'n drosedd i unrhyw un gynnal ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru. Rhaid i geisiadau gynnwys gwybodaeth benodedig, gan gynnwys a yw'r ysgol arfaethedig yn bwriadu derbyn disgyblion ag AAA (gyda neu heb ddatganiad). Mae Adran 160 (a160) yn nodi, pan fo cais yn cael ei wneud i gynnwys ysgol yn y gofrestr o ysgolion annibynnol, fod yn rhaid darparu gwybodaeth benodol gan gynnwys:

- ystod oedran y disgyblion;
- uchafswm nifer y disgyblion;
- ai ysgol ydyw i ddisgyblion gwryw neu fenyw neu'r ddau;
- a yw'r ysgol yn cynnig llety i ddisgyblion;
- a yw'r ysgol yn derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.¹

Mae a162 yn caniatáu i Weinidogion Cymru dynnu ysgol oddi ar y gofrestr os oes newid o bwys mewn perthynas â'r ysgol a'r newid heb ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae newid o bwys yn cynnwys newid mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a restrir uchod. Gall ysgolion annibynnol nad ydynt wedi'u cofrestru i dderbyn disgyblion ag AAA wneud cais i Weinidogion Cymru i wneud hynny drwy ofyn am newid o bwys (a162 o'r Ddeddf Addysg). Ar hyn o bryd gall ysgolion annibynnol hefyd geisio cymeradwyaeth i dderbyn plant â datganiadau AAA yn gyffredinol o dan a347(5)(a). Os nad yw ysgol annibynnol wedi cael cymeradwyaeth i dderbyn plant â datganiadau AAA yn gyffredinol, nid yw rhieni sy'n dewis talu i leoli eu plentyn ag AAA yn yr ysgol annibynnol honno wedi'u

¹ Ategir yr adran hon gan Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003. Mae'r rhain yn gofyn i'r wybodaeth ganlynol gael ei rhoi i'r Cofrestrydd (ar y ffurflen gais):

ystod oedran y disgyblion

uchafswm nifer y disgyblion

ai ysgol ydyw i ddisgyblion gwryw neu fenyw neu'r ddau

a yw'r ysgol yn cynnig llety i ddisgyblion

a fydd yr ysgol yn derbyn disgyblion ag AAA

a fydd yr ysgol yn darparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer disgyblion ag AAA a'r math o AAA.

rhwymo gan yr un gofynion cyfreithiol ag awdurdodau lleol o ran gwneud cais am gymeradwyaeth i wneud lleoliad o'r fath.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau ar y cynnig i ddileu a347 yng ngoleuni bodolaeth a160 a'r mesurau diogelu arfaethedig eraill y mae'r Llywodraeth yn cynnig eu cyflwyno.

Cefndir yr ymgynghoriad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynnig polisi i ddiwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig drwy ddiddymu Adran 347 o Ddeddf Addysg 1996. Parhaodd y cyfnod ymgynghori o 20 Medi hyd 1 Tachwedd 2012.

Yr ymgynghoriad

Y broses ymgynghori

Roedd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am adborth ar y cynnig polisi i ddiwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig, a'r adroddiad cryno drafft cysylltiedig ar gyfer monitro blynyddol.

Gwahoddwyd ymatebwyr i ystyried cwestiynau penodol am y polisi ac fe'u hanogwyd i nodi unrhyw bwyntiau eraill yr oeddent yn eu hystyried yn angenrheidiol.

Parhaodd y cyfnod ymgynghori am chwe wythnos ac fe'i hyrwyddwyd drwy anfon yn uniongyrchol at gysylltiadau addysg yn sector y wladwriaeth, y trydydd sector, y sector annibynnol a'r arolygiaeth. Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru sydd ar gael yma:

<http://wales.gov.uk/consultations/education/senregistration/?lang=cy>

Roedd y ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at gynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth ynghylch plant ag AAA. Gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ar 26 Medi 2012 i gyhoeddi y byddai'r cynigion hynny bellach yn symud yn eu blaen ar amserlen wahanol i'r cynnig i ddiddymu a347. Felly, dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at y Cynllun Datblygu Unigol neu at 'anghenion ychwanegol (AY) sylweddol/difrifol' yn y ddogfen ymgynghori fel cyfeiriadau at ddisgyblion â datganiad AAA.

Yr ymatebion

Cawsom 9 o ymatebion gan Estyn, Ysgol Howell Llandaf, Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr Cymru, NASUWT, NUT Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Comisiynydd Plant Cymru, Ysgol Rydal Penrhos a Choleg Dewi Sant.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion.

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno y dylid diddymu a347?

Roedd pump o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid diddymu a347, roedd un yn anghytuno â'r cynnig ac nid oedd y lleill yn cytuno nac yn anghytuno.

Y rhesymau a roddwyd dros gefnogi diddymu a347 oedd bod y trefniadau presennol yn orgymhleth ac yn anweithredadwy. Roedd ATL Cymru eisiau sicrwydd ynghylch lefel y cyllid a fyddai ar gael i awdurdodau lleol a nododd mai Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i drosolygu'r ddarpariaeth ledled Cymru.

Nododd Estyn ffactorau a fyddai'n cyfrannu at sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu lleoli plentyn mewn ysgol sy'n cydweddu orau â'i anghenion, fel sicrhau bod cofrestriad ysgol annibynnol yn nodi'n glir y categorïau o anghenion dysgu ychwanegol y mae'n darparu ar eu cyfer. Nododd yr NASUWT fod y cynnig yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol.

Roeddent yn poeni na fyddai'r system newydd ond yn caniatáu i Weinidogion ymyrryd ar ôl i leoliad gychwyn yn hytrach na'i gymeradwyo ymlaen llaw.

Roedd Coleg Dewi Sant yn poeni na fyddai'r ymweliadau monitro blynyddol gan Estyn yn cael eu cynnal mwyach ac y byddai hynny'n niweidio'r ffordd genedlaethol unedig o gynnal safonau darpariaeth AAA yng Nghymru.

Cwestiwn 2 – Cynigir y bydd yn ofynnol o dan a160 i ysgolion annibynnol gofrestru i dderbyn disgyblion ag AY, os yw'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag AY sylweddol ac/neu ddifrifol, sy'n cyfateb i'r rhai sydd â'r un diogelwch hawliau o dan ddatganiad AAA ar hyn o bryd. Bydd yn ofynnol i'r ysgolion annibynnol ddiffinio'r ddarpariaeth AY a gynigir ganddynt. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig?

Roedd pob ymatebydd yn cytuno â'r cynnig.

Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod 'y gofyniad i ddiffinio'r meysydd ADY y gellir darparu ar eu cyfer yn hanfodol i helpu Awdurdodau Lleol i nodi pa ysgolion sy'n gallu cynnig darpariaeth briodol heb orfod mynd trwy'r ysgolion i gyd'. Nododd y Comisiynydd Plant hefyd y dylai fod yn ofynnol i ysgolion ddarparu gwybodaeth ar gymwysterau a hyfforddiant staff a rheolwyr er mwyn dangos eu bod yn gallu diwallu'r anghenion y maent yn dweud y gallant ddarparu ar eu cyfer.

Tynnodd Estyn sylw at sawl peth yr oeddent yn meddwl bod eu hangen i sicrhau monitro llwyddiannus, gan gynnwys bod ffurflenni cofrestru ysgolion yn cynnwys mwy o fanylion ac yn cael eu diweddarau'n flynyddol.

Cwestiwn 3 – Cynigir y bydd yr ysgolion annibynnol sydd wedi'u cofrestru i dderbyn disgyblion ag AY yn destun ymweliadau monitro blynyddol, yn yr un ffordd â'r ysgolion sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd fel rhai sy'n addas i dderbyn plant gyda datganiadau AAA yn gyffredinol. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig?

Roedd pob ymatebydd yn cytuno â'r cynnig, ar wahân i Estyn nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno.

Nododd y Comisiynydd Plant ei bod yn hanfodol bod y broses monitro blynyddol yn gadarn er mwyn ennyn ymddiriedaeth rhieni a'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau. Nododd Estyn mai diben eu harolygiadau yw bwrw golwg ar y ddarpariaeth gyffredinol a bod yn rhaid i awdurdodau lleoli barhau i fod yn gyfrifol am fonitro lleoliadau unigol.

Cwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyhoeddi adroddiadau monitro blynyddol ar ysgolion annibynnol?

Roedd pob ymatebydd yn cytuno â'r cynnig.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y ffaith bod y cynigion yn gam i'w groesawu tuag at fod yn fwy tryloyw ac agored. Awgrym arall oedd y dylai adroddiadau arolygwyr atgynhyrchu'r rhai ar gyfer ysgolion a gynhelir. Nodwyd y bydd y rhan gyhoeddedig o'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Dylai hyn

fod yn ddefnyddiol i awdurdodau lleoli a bydd yn atgoffa ysgolion o bwysigrwydd gwneud yn siŵr bod eu darpariaeth yn addas.

Cwestiwn 5 – A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i roi canllawiau i awdurdodau lleol ac i berchnogion ysgolion annibynnol?

Roedd pob ymatebydd yn cytuno â'r cynnig.

Croesawodd gohebwy'r y cyfle i gyfrannu at ddrafftio'r canllawiau. Awgrymwyd y dylai'r canllawiau roi sylw hefyd i hawliau'r plentyn.

Cwestiwn 6 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Nododd un ymatebydd ei fod yn croesawu'r cynigion ac roedd am wybod a fyddai cyllid ychwanegol ar gael. Nododd un ymatebydd fod angen i ysgolion gael rhyw fath o arolygiad er mwyn cymhwyso i roi addysg i blant ag AAA, ac yna cael eu rhestru fel rhai sy'n bodloni'r gofynion, yn hytrach na chofrestru darpariaeth ar ôl i blentyn gael datganiad.

Gofynnodd dau ymatebydd am eglurhad ynghylch y trefniadau y byddai angen eu sefydlu pe bai angen i fyfyrwr heb ddatganiad yn yr ysgol gael datganiad tra ei fod ar gofrestr yr ysgol.

Y camau nesaf

Bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio cyflwyno deddfwriaeth i weithredu'r cynnig i ddiddymu a347 o Ddeddf Addysg 1996 a chofrestru ysgolion annibynnol yng Nghymru o dan Adran 160 o Ddeddf Addysg 2002, yn ogystal â'r mesurau diogelu arfaethedig eraill yr ymdrinnir â hwy yn y ddogfen hon.

Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Estyn
Ysgol Howell Llandaf
NASUWT Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru
Ysgol Rydal Penrhos
Coleg Dewi Sant